

	Targed	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn
Targed 1	Prawf ddarllen er mwyn gwella llif a strwythur y gwaith.	Wedi darllen fy ngwaith nifer o weithiau.
Targed 2	Sicrhau cedwir at ofynion cyfrinachedd a moesegau ymchwil rhag niwed i unrhyw un o'r cyfranogwyr.	Rwyf wedi dilyn y canllawiau a nodwyd gan BERA.

Sut mae ysgol yn datblygu un agwedd ar ei Chynllun Datblygu Ysgol: adroddiad sy'n adfyfyrio'n feirniadol ar y camau gweithredu, yr effaith a'r sylfaen dystiolaeth.

Rhagarweiniad

Nod yr adroddiad hwn yw archwilio un agwedd o Gynllun Datblygu Ysgol, sydd wedi'i lleoli mewn tref o fewn awdurdod lleol Abertawe ac yn 2017 roedd 582 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed (Estyn, 2017). Mae 7% o ddisgyblion yn derbyn PYD, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 19%, ac mae 13% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl, mae Ysgol B yn safle 79 o'r 79 ysgol gynradd yn Abertawe.

Trwy ddilyn canllawiau BERA (2018) ar gyfrinachedd ac anhysbysrwydd, rhoddwyd enw ffug i'r ysgol a fydd Ysgol B. Bydd yr adroddiad yn dechrau trwy drafod y llenyddiaeth ac yna bydd y camau gweithredu yn cael ei adfyfyrio'n feirniadol. Trwy ddilyn canllawiau BERA (2018) ar gyfrinachedd ac anhysbysrwydd rhoddir enw ffug i'r ysgol a fydd Ysgol B.

Adolygiad Llenyddiaeth

Dechreuodd ysgolion mewn gwahanol rannau o'r byd, yn enwedig yn y Gorllewin, fabwysiadu cynllunio strategol yng nghanol yr 1980au (Kaufman and Herman, 1991; Conley, 1992). Er

bod y term cynllunio strategol wedi'i gysylltu'n gyffredin â'r byd corfforaethol, mae bellach yn arfer sy'n cael ei fabwysiadu'n gan sefydliadau addysgol (Mbugua & Rarieva, 2014). Cynllun datblygu'r ysgol (CDY) yw cynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwella. Mae'n nodi'r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i wella canlyniadau dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2014). Eglura Woods & Brighthouse (2013), y dull gorau o wella ysgolion bydd i gyflawni ystod o dargedau yn ogystal â monitro cynnydd yn drylwyr gyda chynllun gweithredu. Yna mesurir llwyddiant o ran cyflawni'r targedau hyn. Y perygl gyda gorddibyniaeth ar y dull hwn yw y gellir cyflawni set o dargedau, ond mae'n bosibl na fydd unrhyw newidiadau gwirioneddol a pharhaol yn digwydd (Woods & Brighthouse, 2013).

Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am hyrwyddo safonau uchel o gyrhaeddiad addysgol mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r pennaeth yn gyfrifol am reoli'r ysgol ac, ochr yn ochr â'r corff llywodraethu, mae'n allweddol i arwain gwaith yr ysgol a'i gallu i wella (Llywodraeth Cymru, 2014). Bydd y CDY yn nodi sut y bydd yr ysgol yn cyflawni ei thargedau, mewn perthynas â'i blaenoriaethau, a sut y bydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys cyllid. Bydd y llywodraethwyr yn monitro, yn adolygu ac yn diwygio'r CDY trwy fod yn gyfrifol am ei baratoi a chytuno â'r targedau (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae gwelliant parhaus yn anelu at leihau'r bwlch rhwng lefel perfformiad cyfredol ysgol a'i photensial gwirioneddol (Hannover Research Group, 2014).

Ymhellach, bydd datblygu cynaliadwy ysgolion yn cael ei yrru gan gynllunio strategol (Cheng, 2013). Mae cynllunio strategol yn broses sy'n cynnwys meddwl yn strategol, cynllunio strategol, gweithred ac adolygu (Lumby, 2002), monitro ac addasu i'r amgylchedd allanol (Peterson, 1999). Mae'r broses hon yn cynnwys dadansoddi'r wybodaeth a'r data a gasglwyd, a llunio cynllun i fynd i'r afael â'r effaith a gynhyrchir gan yr amgylchedd allanol (Fidler, 1998; Allison & Kaye, 2005). Byddai'n cyfuno amrywiol weithgareddau yn yr ysgol a fyddai wedyn yn cael eu llunio mewn dogfen, gan sicrhau bod y camau gweithredu yn y cynllun wedi'u cydgysylltu'n dda (Cheng, 2013).

Gall athrawon gyfrannu mwy at ddatblygiad ysgol os ydyn nhw'n gyfarwydd â sefyllfa'r ysgol trwy gymryd rhan mewn cynllunio (Gamage & Pang, 2003; Beyerlein et al., 2003). Mae cymryd rhan mewn cynllunio yn bwysicach na chanlyniad cynllunio, oherwydd nid yn unig mae'n creu diwylliant rhannu gwybodaeth, ond hefyd yn hyrwyddo perchnogaeth o'r cynllun (Cheng, 2013).

Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y targed canlynol:

Parhau i ddatblygu darpariaeth y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, yn ogystal â gwella ymwybyddiaeth disgyblion o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol.

Mae'r CDY yn nodi'n glir y rhesymeg o ddewis y targed penodol a gyda'r cwricwlwm newydd i Gymru yn dod i rym yn 2021, yna mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu'r targed hwn (Donaldson, 2015). Mae'n ymddangos bod consensws ynghylch yr angen i gefnogi a datblygu cymhwysedd digidol yn yr ysgol (Hatlevik & Christophersen, 2013). Fodd bynnag, wrth ddarllen y CDY mae'r ysgol yn cyfaddef bod darpariaeth yn anghyson ar draws yr ysgol. Felly, mae angen i athrawon dod i'r afael â dysgu sgiliau digidol nid yn unig fel pwnc ar wahân ond hefyd ei ymgorffori mewn addysgu ym mhob pwnc i gefnogi'r broses hon (Ala-Mutka et al., 2008). Ymhellach, wrth ddarllen adroddiad Donaldson (2015), mae'r FfCD yn un o dri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd gyda rhifedd a llythrennedd. Yn dilyn, gwelir Ysgol B nifer gynyddol o achosion difrifol llynedd yn ymwneud â diogelwch y we a defnydd amhriodol gan ddisgyblion o gyfryngau cymdeithasol. Er hynny, bydd y cwricwlwm newydd yn cynnig ystod eang o brofiadau a chyfleoedd i ddisgyblion i gymhwyso eu sgiliau digidol mewn amgylchedd diogel (Donaldson, 2015). Mae'r ysgol wedi gweithredu gwahanol gamau am gyfnod o flwyddyn a fydd, gobeithio, yn sicrhau bod y targed yma yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

Dylai adeiladu cymhwysedd digidol trwy ymgorffori a dysgu TGCh ddechrau mor gynnar â phosibl, trwy ddysgu defnyddio offer digidol yn feirniadol, yn hyderus ac yn greadigol, gan roi sylw i ddiogelwch a phreifatrwydd (Ala-Mutka et al., 2008). Mae cymhwysedd digidol yn wahanol i TGCh, oherwydd y set o wybodaeth, sgiliau ac agweddau sy'n caniatáu i rywun ddefnyddio technolegau yn greadigol, hyderus ac yn feirniadol yw cymhwysedd digidol. Technoleg gwybodaeth yw'r gallu i ddefnyddio systemau cyfrifiadurol, meddalwedd a rhwydweithiau ar gyfer prosesu a dosbarthu data ac yn ymarferol, dylai cymhwysedd digidol fodoli gyda thechnoleg gwybodaeth (Walker & White, 2013). Felly, nod y FfCD yw datblygu sgiliau digidol sydd yn cysylltu ag ystod o bynciau a gellir eu trosglwyddo i'r byd gwaith (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'n hanfodol bod disgyblion yn cael cyfleoedd o fewn ysgolion i ddatblygu sgiliau digidol i'w gwneud yn fwy cyflogadwy ar ôl iddyn nhw adael yr ysgol (Ala-Mutka et al., 2008; Hatlevik & Christophersen, 2013). Mae'r Fframwaith yn helpu'r dysgwyr i

lwyddo mewn byd digidol ac yn amlinellu'r pwysigrwydd o sicrhau sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol gyda'r un cyfrifoldeb (Llywodraeth Cymru, 2018). Er mwyn cynnal cynhwysiant digidol, mae angen i ysgolion nodi diffygion digidol a chyflawniadau digidol (Hatlevik & Christophersen, 2013), sef yr hyn y mae Ysgol B wedi'i wneud.

Datblygu pwynt gweithredu

Mae'r CDY yn nodi'n glir y gwahanol gyfrifoldebau a nodwyd ar gyfer gwahanol bobl, megis y pennaeth, arweinydd digidol y staff cyfan a'r llywodraethwyr. Mae'r cynllun wedi'i nodi ar gyfer y flwyddyn academiaidd ac mae gan bob gweithred o fewn y targed amserlen benodol.

Mae gwahanol ffyrdd o fesur effaith y CDY o fewn Ysgol B sef; monitro safonau ar lawr y dosbarth, arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a sgwrsio gyda dysgwyr. Bydd yr arweinydd digidol yn gyfrifol o greu cofnodion monitro yn dymhorol, ac wrth wneud hyn bydd y data o safonau a disgwyliadau yn cael ei nodi fel ffordd ymlaen. Felly, mae rhaid i'r athrawon sicrhau bod enghreifftiau o waith trawsgwricwlaidd o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau'r FfCD a chodau QR yn y llyfrau i ddangos bod cyfleoedd ar gael i'r plant i recordio, ffilmio a.y.y.b. Hefyd, bydd angen defnydd amlwg o HWB o fewn gwersi wrth gynnwys tystiolaeth amlwg o wersi ar e-ddiogelwch.

Mae Estyn (2020), yn y broses o greu pecyn cymorth hunanwerthuso o'r enw 'Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion' a fydd ar gael yn 2021. Mae Estyn yn cydnabod bod hunanwerthuso wrth wraidd y trefniadau gwerthuso a gwella o ran datblygu, cefnogi ac alinio â'r Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru. Dylai staff groesawu hunanwerthuso ac mae'n annog rhannu arfer diddorol sy'n cefnogi dysgu proffesiynol ac yn cryfhau lles dysgwyr a staff (Estyn, 2020).

Mae'r term rhanddeiliaid fel rheol yn cyfeirio at unrhyw un sy'n cael ei fuddsoddi yn lles a llwyddiant yr ysgol a'i disgyblion (Pissourious, 2014). Eglura Young (2009), y dylai cynllunio strategol ymwneud â rhanddeiliaid yn yr ysgol yn lleisio eu pryderon a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella, gan adolygu gwybodaeth ar gyfer cyfeiriad yr ysgol. Mae cyfathrebu'n bwysig er mwyn gwella cyfranogiad rhanddeiliaid mewn cynllunio strategol (Pevzner, 2006). Gall canlyniadau perfformiad academiaidd yr ysgol ddibynnu ar gyfranogiad rhanddeiliaid mewn ysgolion a gallu'r arweinwyr ddylanwadu ar y rhanddeiliaid (Gichohi, 2015; Schildkamp, 2019).

Mae cynnwys rhanddeiliaid yn golygu gweithio gyda phobl a defnyddio'r adnoddau i weithio gyda'i gilydd i wireddu nodau cytunedig (Bartle, 2007; Estyn, 2020). Felly, mae'r rhanddeiliaid yn gallu creu syniadau arloesol a all effeithio ar ddatblygiad yr ysgol, sydd o ganlyniad yn gwella dysgu a gwybodaeth y disgyblion (Butler et al., 2015). Enghraifft o gynnwys llywodraethwyr o fewn y CDY, oedd yr adroddiad tymhorol sydd yn hysbysu'r corff llywodraethol o gynnydd y flaenoriaeth ac yn rhoi gwell ymwybyddiaeth gan y llywodraethwyr i ddatblygu'r targed.

Nid oes gan lawer o broblemau sy'n wynebu ysgolion atebion amlwg. Fodd bynnag, er y gall gweithredu'n gyflym ar fater neu broblem deimlo'n effeithlon, yn aml nid yw gweithredu heb ddata yn effeithiol (Schildkamp, 2019). Mae gwneud penderfyniadau mewn addysg yn aml yn canolbwyntio ar ddefnyddio data asesu crynodol er mwyn sicrhau gwelliannau yng nghyrhaeddiad disgyblion (Schildkamp, 2019). Awgryma'r ymchwili, y gall gwneud penderfyniadau ar sail data yn cyfrannu at fwy o ddysgu a chyflawniad disgyblion (Lai et al., 2014; Van Gee et al., 2016).

Gall y data a gesglir i gyflawni'r nodau hyn fod o wahanol fathau (Cohen et al., 2018). Gellir ei gasglu'n systematig, a elwir weithiau'n ddata ffurfiol sydd yn ddull dadansoddi ansoddol megis arsylwadau strwythuredig yn yr ystafell ddosbarth. Hefyd, mae yna ddulliau meintiol sydd yn cynnwys canlyniadau asesu (Lai & Schildkamp, 2016), a chyfeirir at hyn yn aml wrth wneud penderfyniadau ar sail data (Schildkamp & Kuiper, 2010). Mae Ysgol B wedi ymchwilio i amcanion a nodau'r cwricwlwm newydd, sy'n cynnwys y Fframwaith newydd ac felly wedi defnyddio'r math hwn o ddata i gyflawni hynny. Ymhellach, wrth ddefnyddio system 'Incerts', sylweddolodd yr ysgol bod diffyg cysondeb â'r ddarpariaeth y FfCD ar draws yr ysgol ac o'r data yma oedd yr ysgol yn gallu creu cynllun i wella.

Fodd bynnag, gellir casglu data hefyd wrth ddefnyddio data anffurfiol, sydd pryd mae athrawon yn gallu casglu gwybodaeth am anghenion eu disgyblion mewn ymarfer bob dydd sy'n gwella dysgu parhaus (Overlie, 2009; Heitink et al., 2016). Mae'r data yn gallu eu casglu'n gyflym ac yn gallu cyfeirir ato weithiau fel barn broffesiynol (Schildkamp, 2019). Enghraifft o hyn bydd yr ysgol yn cydnabod bod problemau ar y cyfryngau cymdeithasol ac felly wedi penderfynu creu a chyflwyno polisi e-ddiogelwch i gyd-fynd gyda'r targed. Hefyd wrth gael yr heddwas lleol mewn i siarad â'r disgyblion pob pythefnos, sy'n adlewyrched da o ganlyniad data (Brown, 2015; Veldkamp et al., 2017; Flood & Brown, 2018). Credir felly, mae'r ysgol wedi gweithredu

gwahanol gamau am gyfnod o flwyddyn a fydd, gobeithio, yn sicrhau bod y targed yma yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus (Schildkamp, 2019).

Adfyfrio a gwerthuso

Mae yna nifer o gryfderau i'r CDY, serch hynny efallai gall defnyddio llais disgyblion mewn mwy o feysydd o'r cynllun strategol i wella cydweithredu, gan fod y cynllun strategol wedi'i anelu at wella perfformiad disgyblion. Mae diffyg llais y disgybl yn y cynllun datblygu ar y cyfan ond dylai'r holl gynlluniau a wneir yn yr ysgol ganolbwyntio ar ganlyniad disgyblion. Mae angen cael barn disgybl yn y cynllun gan fod y cynlluniau hyn yn effeithio ar fywyd, perfformiad a chysur disgyblion tra yn yr ysgol (Woods & Brighouse, 2013). Mae cynnwys syniadau'r disgyblion wedi'u hymgorffori yn y cynllun datblygu yn awgrymu eu bod yn ymwneud â chynllunio ar gyfer a chyfarwyddo eu hysgol (Eacott, 2008),

Awgryma'r ymchwiler, pwysigrwydd defnyddio data i greu targedau a gwerthuso gweithredoedd, ond nid yw'r cynllun gwrs yn dangos unrhyw ffigurau data cysylltiedig (Schildkamp, 2019). Felly, er mwyn cyflawni'r targed yn llwyddiannus, yna dylai'r arweinydd digidol weithredu'r canlyniadau data. Dylai arweinwyr ysgolion sicrhau bod eu system TG yn cynhyrchu data a gwybodaeth ddibynadwy ar gyfer cynllunio strategol yn ystod y flwyddyn, oherwydd y rhesymau dros fethiant cynllunio strategol yw diffyg data a gwybodaeth ddibynadwy (Cheng, 2013).

Mae'r cynllun datblygu yn egluro bod yna noson rhieni sy'n ymwneud yn benodol â chymhwysedd digidol yn ystod tymor yr Hydref. Mae hwn yn syniad rhagorol, fodd bynnag, byddwn yn dadlau y dylai hyn fod yn fwy cyson trwy gydol y flwyddyn. Os nad yw'r rhieni'n deall y dechnoleg a ddefnyddir, yna gallai hyn gael effaith negyddol os oes disgwyl i'r disgybl wneud gwaith cartref wedi'i seilio ar dechnoleg. Byddai enghraifft o hyn yn ystod y pandemig, mae disgwyl i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwrsi ar-lein, ond efallai na fydd gan rai rhieni'r cymhwysedd i helpu eu plant ac ni fyddant yn annog y disgyblion i wneud gwaith ar-lein. Mae yn bosib y bydd rhai rhieni hefyd yn ofni'r dechnoleg, o siarad ag un rhiant, nid oeddent yn teimlo ei bod yn ddiogel i'w plentyn i ddefnyddio technoleg. Fodd bynnag, aeth y plentyn adref un diwrnod a dangos i'r rhiant sut i gadw'n ddiogel ar-lein ac roedd hyn o ganlyniad wedi datblygu hyder y rhiant. Felly, awgryma hyn, y gallai fod angen rhywfaint o gefnogaeth ar rai rhieni gyda thechnoleg. Trwy wneud y gwrsi cymhwysedd digidol pan gyflwynir thema

newydd i'r disgyblion, bydd athrawon yn sefydlu bod aelod o'r teulu sy'n arbenigo yn y maes hwnnw o'r thema ac a allai gyfrannu ato trwy ddod i mewn a siarad â'r disgyblion (Kaufman & Herman, 1991). Yn ychwanegol, mae hyn yn dod â'r gymuned, yr ysgol a'r dysgwr gyda'i gilydd sydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol (Epstein, 2011).

Yn 2019, rhannodd Estyn wybodaeth am arfer da mewn ysgol uwchradd sydd i'w wneud â chymhwysedd digidol. Eglurodd yr adroddiad, mae cynllunio manwl i wella profiadau digidol disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder staff. Mae elfennau o'r fframweithiau rhifedd a digidol wedi'u plethu i wersi yn llwyddiannus wrth i weithgor digidol y clwstwr yn cwrdd bob hanner tymor i hunanwerthuso gwaith a chynllunio gwelliant ar gyfer dilyniant dysgu'r disgyblion. Felly, gallai hyn fod yn syniad i arweinwyr digidol ysgolion cynradd i gwrdd â thrafod ffyrdd a fydd yn helpu eu hysgolion. Fel rhan o nosweithiau i rannu arfer da, rhoddir cyfleoedd i staff gyflwyno a gweld enghreifftiau o dasgau digidol ei gilydd ac mae hyn yn rhywbeth y gellir ei wneud mewn ysgolion cynradd yn ystod craffu llyfrau.

Mae un arweinydd digidol ar gyfer yr ysgol, ond oherwydd bod gan yr ysgol nifer fawr o ddisgyblion, gallai fod yn effeithiol cael mwy nag un. Mae'r cwricwlwm newydd yn disgwyl i'r dysgu fod yn gontinwrm yn hytrach na chyfnod fel Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 2 (Donaldson, 2015). At hynny, byddai cael tri arweinydd yn golygu y byddai'r pwysau gwaith yn cael ei wasgaru'n gyfartal a bydd y camau i gyflawni'r targed yn haws i'w rheoli. Syniad o hyn fyddai cael dosbarth Meithrin i flwyddyn 1, blwyddyn 2 i flwyddyn 4, ac yna blwyddyn 5 i 6. Fodd bynnag, dylai'r arweinydd sy'n gyfrifol am flwyddyn 5 i 6 fod yn cyfathrebu â'r ysgol uwchradd i gasglu gwybodaeth am lefel yr addysgu ar gyfer blwyddyn 7. Byddai hyn yn helpu gyda throsglwyddo ac yn sicrhau bod disgyblion blwyddyn 6 yn barod ar gyfer y gwersi sy'n seiliedig â chymhwysedd digidol. Os yw'n bosibl, yna dylai arweinwyr digidol o ben uchaf Cyfnod Allweddol 2 a gwaelod Cyfnod Allweddol 3 fod yn cyfathrebu a mynychu cyrsiau digidol gyda'i gilydd.

Casgliad

Mae'r ysgol wedi cydnabod bod y cwricwlwm yng Nghymru yn newid, ac yn gwneud newidiadau yn yr ysgol yn barod. Bydd y newidiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion ac yn sicrhau bod y staff yn llawn hyder ar gyfer addysgu'r FfCD.

Gellir priodoli hyn i arferion cynllunio cyffredin mewn ysgolion sydd yn aml yn y tymor byr ac fel arfer yn seiliedig ar anghenion uniongyrchol yr ysgol. Mae cynllunio strategol, ar y llaw arall, yn dymor hir, yn ddadansoddol yn ogystal â gweledigaethol, ac felly mae'n galw am ffordd wahanol o feddwl na'r hyn a fu'n ofynnol yn y gorffennol wrth ddatblygu cynlluniau datblygu ysgolion (Davies & Davies, 2010; Quong & Walker, 2010). Felly, mae ymchwil wedi profi bod creu cynllun datblygu ysgol effeithiol, yn dibynnu ar gyfranogiad y rhanddeiliaid a barn y disgyblion (Gichohi, 2015).

Rhestr gyfeirio:

Ala-Mutka, K., Pulie, Y. and Redecker, C. (2008). Digital competence for lifelong learning. *Institute for Prospective Technological Studies (IPTS), European Commission, Joint Research Centre*.

Allison, M., & Kaye, J. (Eds.). (2005). *Strategic Planning for Nonprofit Organizations*. New York: John Wiley & Sons.

Bartle, P. (2007) Participatory management: methods to increase staff input in organizational decision-making.

Beyerlein, M.M., Freedman, S., McGee, C. a Moran, L (2003). The ten principles of collaborative organizations. *Journal of Organizational Excellence*, 22(2).

British Educational Research Association (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research (4th Ed)*. Ar gael ar lein: <https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online>. Cyrchwyd: 12fed Ebrill 2020

Brown, C., Ed. (2015). *Leading the Use of Research and Evidence in Schools*. London: Institute of Education Press.

Butler, J.R.A., Wise, R.M., Skewes, T.D., Bohensky, E.L., Peterson, N., Suadnya, W., Yanuartati, Y., Handayani, T., Habibi, P., Puspadi, K. a Bou, N. (2015). Integrating top-down and bottom-up adaptation planning to build adaptive capacity: a structured learning approach. *Coastal Management*, 43(4).

Cheng, E. C. K. (2011). An examination of the predictive relationships of self- evaluation capacity and staff competency on strategic planning in Hong Kong aided secondary schools. *Education Research for Policy and Practice*, 10(3).

Cheng, E.C. (2013). Applying knowledge management for school strategic planning. *KEDI Journal of Educational Policy*, 10(2).

Coburn, C. E. (2006). "Framing the Problem of Reading Instruction: Using Frame Analysis to Uncover the Microprocesses of Policy Implementation." *American Educational Research Journal* 43.

Cohen, L., Manion, L., Morrison K (2018). *Research Methods in Education*. Llundain:

Conley D (1992) Strategic planning in America's schools: An exploratory study. Paper presented at the annual meeting of the American Educational Research Association (AERA), San Francisco, CA, April.

Davies B and Davies BJ (2010) The nature and dimensions of strategic leadership. *International Studies in Educational Administration* 38(1).

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael: <http://www.https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf> <https://oecd.org/pisa/publications/pisa-2018-results.htm>. Cyrchwyd ddiwethaf 9fed Ebrill 2020.

Eacott S (2008) Strategy in educational leadership: In search of unity. *Journal of Educational Administration* 46(3).

Epstein, J.L., Galindo, C.L. a Sheldon, S.B. (2011). Levels of leadership: Effects of district and school leaders on the quality of school programs of family and community involvement. *Educational Administration Quarterly*, 47(3).

Estyn (2019). *Developing pupils' digital skills*. Ar gael: <https://www.estyn.gov.wales/effective-practice/developing-pupils-digital-skills>. Cyrchwyd ddiwethaf: 1af o Ebrill 2020.

Estyn. (2017). *Adroddiad ar Ysgol B*. Ar gael: <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-pontybrenin/UploadedDocument/1bb6d9db898d485c8a78e507226d50ef/adroddiad-2017-cym.pdf>. Cyrchwyd ddiwethaf: 12fed Ebrill 2020.

Estyn. (2020) Arolygu hunanwerthuso: dull newydd. Ar gael: <https://www.estyn.gov.wales/inspection/national-evaluation-and-improvement-resource-schools>. Cyrchwyd ddiwethaf: 11eg Ebrill 2020.

Fidler, B. (1998). How can a successful school avoid failure?: Strategic management in schools. *School Leadership and Management*, 18(14),

Flood, J., a C. Brown. (2018). "Does a Theory of Action Approach Help Teachers Engage in Evidence-Informed Self-Improvement?" *Research for All* 2 (2).

Gamage, D.T. a Pang, N.S.K. (2003). *Leadership and management in education: Developing essential skills and competencies*. Chinese University Press.

Gichohi, G.W. (2015). Stakeholder involvement in schools in 21st century for academic excellence. *International Journal of Education and Research*, 3(2).

Hannover Research Group (2014). Best practices for school improvement planning. *Washington DC: Authors. Retrieved August. 15*

Hatlevik, O.E. a Christophersen, K.A. (2013). Digital competence at the beginning of upper secondary school: Identifying factors explaining digital inclusion. *Computers & Education*, 63.

Heitink, M. C., F. M. Van der Kleij, B. P. Veldkamp, K. Schildkamp, a W. B. Kippers. (2016_). "A Systematic Review of Prerequisites for Implementing Assessment for Learning in Classroom Practice." *Educational Research Review* 17: 50–62.

Kaufman R and Herman J (1991) Strategic planning for a better society. *Educational Leadership* 48(7).

Klenowski, V. (2009). "Assessment for Learning Revisited: An Asia-Pacific Perspective." *Assessment in Education: Principles, Policy & Practice* 16: 263–268.

Lai, M. K., a K. Schildkamp. (2016). "In-Service Teacher Professional Learning: Use of Assessment in Data-Based Decision-Making." In *Handbook of Human and Social Conditions in Assessment* New York, NY: Routledge.

Lai, M. K., A. Wilson, S. McNaughton, a S. Hsiao. (2014). "Improving Achievement in Secondary Schools: Impact of a Literacy Project on Reading Comprehension and Secondary School Qualifications." *Reading Research Quarterly* 49 (3).

Llywodraeth Cymru (2014). *School development plans*. Ar gael: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/school-development-plans.pdf>. Cyrchwyd ddiwethaf 1af Ebrill 2020.

Llywodraeth Cymru (2018). *Fframwaith Cymhwysedd Digidol – canllawiau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Lumby, J. (2002). Vision and strategic planning. In T. Bush & L. Bell (Eds.), *The principles and practice of education management*. Llundain: Paul Chapman Publish.

Mbugua, F. & Rarieya, J.F (2014). Collaborative strategic planning: myth or reality? *Educational Management Administration & Leadership*, 42(1).

Overlie, J., (2009). Creating confident, capable learners. *The teacher assessment leader*.

Park, V., A. J. Daly, a A. W. Guerra. (2013). "Strategic Framing: How Leaders Craft the Meaning of Data Use for Equity and Learning." *Educational Policy* 27 (4).

Peterson, M. W. (1999). Using contextual planning to transform institutions. In M. Peterson (Ed.), *ASHE reader on planning and instructional research*. Needham Heights, MA: Pearson Custom Publishing.

Pevzner M (2006) A case study of strategic planning at Kent State University. University Administration Support Program.

Pissourios, I., (2014). Top-down and bottom-up urban and regional planning: Towards a framework for the use of planning standards. *European Spatial Research and Policy*, 21(1).

Quong T and Walker A (2010) Seven principles of strategic leadership. *International Studies in Educational Administration* 38(1).

Schildkamp, K. (2019). Data-based decision-making for school improvement: Research insights and gaps. *Educational research*, 61(3), pp.257-273.

Schildkamp, K., a C. L. Poortman. (2015). "Factors Influencing the Functioning of Data Teams." *Teachers College Record* 117 (4).

Schildkamp, K., a W. Kuiper. (2010). "Data-Informed Curriculum Reform: Which Data, What Purposes, and Promoting and Hindering Factors." *Teaching and Teacher Education* 26.

Van Geel, M., T. Keuning, A. J. Visscher, a J. P. Fox. (2016). "Assessing the Effects of a School-Wide Data-Based Decision-Making Intervention on Student Achievement Growth in Primary Schools." *American Educational Research Journal* 53 (2): 360–394.

Vanlommel, K., a K. Schildkamp (2018) "How Do Teachers Make Sense of Data in the Context of High-Stakes Decision Making?" Paper presented at the International Congress for School Effectiveness and Improvement, Singapore.

Veldkamp, B. P., K. Schildkamp, M. Keijsers, A. J. Visscher, a A. J. M. De Jong. (2017). "Rapport: Verkenning Data-Gedreven Onderwijsonderzoek in Nederland." In *[Report: Exploration of Big Data in Education in the Netherlands]*. Enschede: Published by Universiteit Twente.

Walker, A. anWhite, G. (2013). *Technology Enhanced Language Learning: connecting theory and practice-Oxford Handbooks for Language Teachers*. Oxford University Press.

Woods, D. a Brighthouse, T (2013). *The AZ of School Improvement: Principles and Practice*. A&C Black.

Young DY (2009) Strategic planning in Manitoba. A paper prepared for POLS 7370, Theory and Practice of public Administration, University of Manitoba.

